



Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 9fed o Chwefror 2023 yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbynn Cofnodion 14eg o Ionawr
5. Materion yn codi
6. Materion ariannol
 - i. Mantolen ariannol
 - ii. Archwyllo Allannol
 - iii. Cofnodion cyfarfodydd IBC 25/01/2023

7. Cynllunio

C23/0076/25/LL Harveys Restaurants Caernarfon Road, Bangor, Gwynedd, LL57 4SU
Rhannu'r uned i greu 2 ofod ar wahân. Llinellau cyrb newydd ac estynedig o amgylch y safle. Llwybr troed tarmac newydd. Croesfan newydd i gerddwyr. 4 rh. bolard newydd o flaen yr uned. Blaen siop newydd a drws mynediad i'r ail uned newydd.

C23/0069/25/HY Harveys Restaurants Caernarfon Road, Bangor, Gwynedd, LL57 4SU
Amryw o arwyddion newydd wedi'u goleuo a heb eu goleuo ar yr adeilad a'r safle

C18/0767/25/LL Land At Coed Wern, Bangor, LL57 4BE Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, manau parcio, systemau draenio.

8. Materion y Clerc

- Hysbysebu Sedd Wag / Cyfethol
- Cyfarfod Pwyllgor Canolfan Glasinfryn Nos Lun 16-01-23 am 7.00y.h
- Ganolfan newydd
 - Unrhyw ddiweddariad
- Cae Chwarae Caerhun
 - Llythyr derbyn y cytundeb
- Capel y Fynwent
 - Gwaith Saer
 - Amcanbris Paentio
 - Amcanbris Llorio
 - Gwaith trydannol
 - Amcanbris goleuadau
- Cysgodfannau Bws
 - Cyngor gwynedd
 - Trigolion
- Cynllun Hyfforddiant
 - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cyngorwyr
- Proffil aelodau i'r wefan
 - Un ar ol



Cyngor Cymuned Pentir

- Adroddiad Adran 6 Bioamrywiaeth
 - Goleuadau ar Ffordd Menai/Allt dywyll
 - Ymatebion
9. Materion y Cyngorwyr
- a. Cyng A Joyce -
 - i. Ychwanegu biniau baw cwn
 - ii. Adeiladu heb ganiatad
 - iii. Gwefan y Cyngor

 - b. Cyng M Baines
 - i. Hysbysfyrdau
 - ii. Gwefan y Cyngor



Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Ionawr 2023 gynhalwyd yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

1. **Presennol:** Cyng M Lynch – Cadeirydd. Cyng L A James; Cyng B Jones, Cyng M Baines, Cyng I Ellis, Cyng A Joyce; Cyng C W Owen , Cyng D W Jones
Sioned E Jones (Cyfieithydd) a'r Clerc E Jones

2. **Ymddiheuriadau** Cyng D Jones-Morris; Cyng J Pierce, Cyng J Lewis; Cyng Dafydd Meurig

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd ag yn enwedig felly Sioned E Jones oedd wedi dod atom i gyfieithu ar y pryd

3. Datgan buddiant Cynghorwyr L A James, A Joyce J Pierce, a M Baines yn datgan buddiant ar 8 gan eu bod yn aelodau o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan bresennol

4. Derbyn Cofnodion 10fed o Dachwedd
Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng B Jones ag eilwyd gan y Cyng L A James

5. Materion yn codi
Rheoli y Ganolfan Newydd
Chyfarfod Blynyddol y Ganolfan dal heb i'w drefnu i drafod y ffordd ymlaen
Cytunwyd dal i gynnwys y mater fel rhan o'r agenda misol

6. Materion ariannol
'Roedd cofnodion Is-Bwyllgor Cyllid 30ain o Dachwedd ynhyd a mantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos y gwariant a derbyniadau. Nodwyd fod £42,280.82 yn y cyfrif cyfredol ddiwedd tachwedd a £45,064.37 yn y Cyfrif Cadw
Gan nad oedd Is Bwyllgor Cyllid wedi ei gynnal yn ystod Rhagfyr Nodwyd fod £39,642.25 bellach yn y Cyfrif Cyfredol a £45,125.79 yn y cyfrif Cadw yn dilyn derbyn £61.42 mewn llog
Bu cryn drafodaeth ynglyn a gosod Cyllideb ar gyfer 2023-24 gan fod arian, oherwydd gwahanol resymau, ag yn benodol gohiriadau datblygu'r ganolfan newydd wedi bod yn sefyll ers peth amser. Er nad oedd yn benderfyniad unfrydol cytunwyd argymhell i'r Cyngor Llawn ein bod yn gostwng ein Cais Praesept o £55K i £50K i geisio gostwng ein balansau
Archwyllo Allannol
Dim diweddariad o'r Swyddfa Archwyllo Cymru am adroddiad derfynnol am 2021-22

7. Ceisiadau Cynllunio
Dim cais i fynegu barn arnynt

8. Materion y Clerc
 - Hysbysebu Sedd Wag / CyfetholYn dilyn ymddiswyddiad Cyng E Jones mae sedd wag achlysurol angen ei hysbysebu
Bu trafodaeth ynglyn a pha ward oedd angen Cynghorydd.



Cyngor Cymuned Pentir

Atgoffodd y Clerc mae rhaniad cywir Cyngor Cymuned Pentir o ran wardiau ydi 8 Cyngorydd i Ward Faenol a 4 i Ward Glasinfryn.

Y drefn briodol i'w dilyn yw hysbysebu'r sedd yn gyhoeddus am 14 diwrnod

Os daw cais ysgrifennedig at Swyddog Canlyniadau Gwynedd gan 10 o etholwyr ward am etholiad bydd rhaid cynnal etholiad.

Yn dilyn y 14 diwrnod mae hawl gan y Cyngor wedyn i gyfethol a gwahodd enwau ymlaen am 14 diwrnod pellach cyn penodi

Clerc i holi beth yw rhaniad cyngorwyr presennol

- Ail ymateb i lythyr Pont y Borth

Ymateb o Gaerdydd wedi ei rannu eisioes yn electrigr. Y cyfrifoldeb am ddarparu cynlluniau lleol yn sytrthio i'r awdurdod lleol

- Diffib Treborth

Clerc yn adrodd fod y peiriant Diffib wedi ei dynnu o'r cabinet mewn argyfwng ond heb ei ddychwelyd. **Clerc i holi ymhellach**

- Cyfarfod Pwyllgor Canolfan Glasinfryn Nos Lun 16-01-23 am 7.00y.h

Cais wedi dod i benodi neu o leiaf gael cynrychiolaeth o'r Cyngor i fynychu eu cyfarfodydd.

Cytunodd y Clerc fynychu os oedd yn rhydd Nos Lun nesaf

- Ganolfan newydd
 - Unrhyw ddiweddariad

Dim cytundeb wedi ei gyrraedd rhwng yr Eglwys a'r Cyngor Gwynedd parthed y Ganolfan newydd ond 'roedd cyfarfod wedi ei drefnu i gael hawl i godi capasiti yr Ysgol i 315 wedi ei drefnu ar gyfer 24 o loanwr. Mi oedd ymgais i drïo gwthio'r mater yma drwodd wedi ei wneud cyn y gwyliau ond wedi ei ohirio oherwydd fod gwrthwynebiadau wedi eu lleisio ynglyn a phroblemau parcio oedd i fod yn rhan o'r cais cynllunio a'r ffaith fod parcio heb ganiatad yn digwydd ar dir y ganolfan bresennol sy'n rhwystro ein defnyddwyr ein hunain.

Clerc i drefnu cyfarfod rhwng Gamlins a Swyddogion Gwynedd

- Rheoli **Gweler materion yn codi**
- Cae Chwarae Caerhun
 - 2 ddyfnbris 'Roedd gennym bellach 2 dyfnbris am yr un math o waith
 - Penderfyniad

Gosod y cytundeb i pris isaf Cwmni G L Jones Bethesda

- Capel y Fynwent
 - 2 ddyfnbris 'Roedd gennym bellach 2 dyfnbris am yr un math o waith i dynnu'r meinciau ag insiweiddio'r nenfwd
 - Penderfyniad

Gosod y Cytundeb i'r pris isaf Mr G Hughes o Hughes & Hughes

- Trydannol

Gwaith trydannol wedi ei gychwyn i adnewyddu/gosod 2 wresogydd newydd

- Archwylid Trydannol

Cwmni Owen and Palmer wedi cytuno ymgymeryd i roi pris am archwylid 3 adeilad unwaith bydd y trydanwr yn y Capel wedi cwblhau ei waith

- Cysgodfannau Bws
 - Cysgodfan Capel Graig

Wedi derbyn cadarnhad y bydd y gysgodfan bresennol yn cael ei thynnu ag un newydd yn cael ei gosod gan Cyngor Gwynedd hefo Grant Trafnidiaeth Cymru

- Dyfnbris Bellach wedi derbyn 2 bris



Cyngor Cymuned Pentir

- Penderfyniad

Bydd angen ymgynghori hefo Cyngor Gwynedd fel na fydd angen gwneud cais cynllunio a hefyd ymgynghori hefo trigolion cyfagos i dderbyn ei barn

- **CYTUNO AR GYLLIDEB 2023-24**

Wrth ystyried gosod cyllideb ar gyfer 2023-24 ag yn sgil y costau uchod yn ogystal a'r cynnydd sydd mewn prisiau popeth cafwyd cynnig gan y Cyng I Ellis i fynd yn groes i argymhelliad yr Is Bwyllgor Cyllid (30-11-22) sef i ostwng y Praesept ond yn hytrach ei gadw ar yr un lefel sef £55K

Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng L A James

Cafodd y cynnig ei gario yn unfrydol

- Cynllun Hyfforddiant
 - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cyngorwyr

Apelwyd ar i bob Cyngorydd ddychwelyd eu ffurflenni asesiad a diolchwyd i'r rhai oedd eisioes wedi gwneud hynny naill ai yn electronig neu yn ysgrifenedig

- Proffil aelodau i'r wefan

Disgwyl 2 ymateb i'w rhoi ar y wefan

9. Materion y Cyngorwyr

- c. Cyng B Jones Goleuadau ar Ffordd Menai/Allt dywyll

Mae sawl cwyn wedi eu derbyn ynglyn a diffyg goleuadau stryd ar y ffordd yma a hynny wedi cynyddu yn ddiweddar oherwydd fod cymaint yn cerdded ar ei hyd ers i Bont y Borth gael ei chau oherwydd argyfwng

Clerc eisioes wedi anfon at Cyngor gwynedd

- d. Cyng J Lewis yn ei absenoldeb wedi pasio ymlaen 2 fater i'w ystyried
 - i. Mabwysiadu Llwybr heibio'r Lodge

Ymholiad wedi ei wneud ynglyn a chyflwr yr hen ffordd A4244 arferai ddod drwy sgwar Pentir o Lodge Pentir i gyfeiriad Rhydygroes. Bu cais, flynyddoedd yn ol bellach, i'w chlirio ond cafwyd ar ddeallt bryd hynny gan berchennog y Lodge mae tir Preifat ydi'r hen ffordd a gadawyd y mater bryd hynny. Mae'r Lodge bellach ar werth ag o bosib byddai'n haws darganfod eiddo pwy yn union ydi'r hen ffordd sydd a hawl tramwyo ar ei hyd

Clerc i wneud ymholiadau

- ii. Cael bwrdd yn y sgwar yn Pentir yn adrodd hanes y sgwar

Cais wedi dod i'r Cyngor ystyried gosod bwrdd rhywle yn Sgwar Pentir yn amlinnellu hanes yr ardal. Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond efallai dibynnu ar faint y bwrdd oes angen caniatad?

Clerc i holi hynny

Cyng J Lewis yn hapus i holi person sy'n gwneud y math yma ynglyn a'r cynwys a'r gost

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45